

Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

YSGOL I.D. HOOSON



Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni
Ysgol I D Hooson
2017-18

Cyflwyniad

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2016/17. Ynddo mae crynodeb o fywyd a gwaith yr ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Hoffwn ddiolch i'r plant, y staff, y rheini, fy nghydlywodraethwyr ac ein cyfeillion am eu cefnogaeth.

Rydym yn parhau i dyfu fel ysgol ond er hynny mae'n braf teimlo ein bod yn parhau i fod yn un glos iawn. Mae derbyn gwybodaeth ynglyn a'r holl weithgareddau sydd wedi eu trefnu ar gyfer y plant yn werthfawr iawn a diolch am y rhai sy'n rhoi o'i gwirfodd i gyfoethogi profiad y plant.

Llwyddo yw un o'n prif amcanion i bob plentyn, ac mae'r pwyslais a roddir ar godi safonau ymhellach yn parhau. Pleser mawr oedd cael dathlu llwyddiant unigolion a thimau unwaith eto yn yr eisteddfodau a chystadlaethau a gweithgareddau amrywiol.

Mr Aled Roberts
Cadeirydd y Corff Llywodraethol

AELODAU Y CORFF LLYWODRAETHOL

Yn ystod 2016-17, daeth 1 lle gwag ar gael ar y Corff Llywodraethol.

Mr Aled Roberts	Cadeirydd/Chairman Cynrychiolydd Awdurdod Addysg/LEA Representaive	Mr David Blackwell	Cynrychiolydd Rieni / Parents Representative
Mr Peter Jones	Is-Gadeirydd/Vice-Chairman Aelod wedi cyfethol/ Co-opted member	Mr Paul Pemberton	Cynrychiolydd Cyngor Bro/ Community Council Representative
Mr Gareth Pritchard-Hughes	Aelod wedi cyfethol/ Co-opted member	Mrs Stella Matthews	Cynrychiolydd Awdurdod Addysg/ LEA Representaive
Mr Geraint Phillips	Aelod wedi cyfethol/ Co-opted member	Mrs Lynda Roberts	Cynrychiolydd Awdurdod Addysg/LEA Representaive
Mrs Sarah Thomas-Ellis	Cynrychiolydd Rieni / Parents Representative	Mrs Sara Thomas	Cynrychiolydd Staff / Staff Representative
Mr Hywel Dodd	Cynrychiolydd Rieni / Parents Representative	Mr Sion Owen	Cynrychiolydd Athrawon / Teachers Representative
Pastor Joshua Roberts	Cynrychiolydd Rieni / Parents Representative	Mr Rhodri Jones	Pennaeth / Headteacher(11.4.16)

Mae gan y Corff Llywodraethol o fewn pob ysgol gyfrifoldeb dros y canlynol:

Ymddygiad cyffredinol o fewn yr ysgol.

Sicrhau fod cwricwlwm yr ysgol yn ymateb i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, cyffredinol yr ALL.

Penderfynu ar bolisi a darpariaeth ar gyfer Addysg Rhyw.

Penderfynu ar egwyddorion cyffredinol y dylid ei dilyn gan y Pennaeth mewn perthynas a pholisi ymddygiad yr ysgol.

Rheolii cyllideb a osodir gan yr ALL.

Bod yn rhan o brosesau penodi staff.

Sicrhau fod gwybodaeth am yr ysgol yn cael ei gyflwyno i rieni.

Sicrhau fod gwybodaeth am y cwricwlwm yn eang a chytbwys, ac ei fod yn cwrdd a gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Sicrhau fod gwybodaeth am y gyrhaeddiad y disgyblion ac o fewn y cwricwlwm ar gael i rieni ac eraill.

Sicrhau fod yr ysgol yn cwrdd a gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd ac addysg grefyddol.



Paratoi adroddiad blynyddol a chynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni i drafod yr adroddiad(os oes niferoedd digonol)

GWYBODAETH GYLLIDEBOL

Cyfriflen ariannol ar gyfer 2017/2018

Balans agoriadol (Ariannu ALI/Grantiau)	£ 955,433.00
Incwm	£ 181,347.99
Cyfanswm Incwm	£1,136,780.99

Cyflogedig	£ 960,989.27
Adeiladau	£ 71,068.98
Trafnidiaeth	£ 1,572.27
Cyflenwadau	£ 31,549.10
Gwasanaethau Cefnogi	£ 63,827.00
Cyfanswm Gwariant	£1,129,006.62

Blans diwedd blwyddyn	£ 7,774.37
-----------------------	------------

Cronfa Ysgol (Ebrill 2017 – Mawrth 2018)

Balans agoriadol	£ 14,706.39
Derbyniadau	£ 62,530.48
Gwariant	£ 59,214.92
Balans diwedd blwyddyn	£ 18,021.95

STAFFIO

Mae staff yr ysgol yn cynnwys:

- 1 Pennaeth
- 12 Athro/awes llawn amser
- 12 Cymhorthydd llawn amser
- 3 Cymhorthydd rhan-amser
- 1 Ysgrifenyddes / Rheolwr Busnes llawn amser

Niferoedd disgyblion ar ddiwedd Gorffennaf 2018.

Oed Meithrin - 44

Oed Derbyn - 47

Bl. 1 - 28

Bl. 2 - 39

Bl. 3 - 42

Bl. 4 - 41

Bl. 5 - 35

Bl. 6 - 39

Cyfanswm : 315



BLAENORIAETHAU'R YSGOL

Rhifedd – Rhoddwyd ffocws ar ddatblygu cysondeb yn y defnydd o fedrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mynychwyd hyfforddiant i staff ar gynllun Rhifau Rhyfeddol (Big Maths), gan gyflwyno'r strategaeth i ddisgyblion o fewn grwpiau oedran ar draws yr ysgol. Rhoddwyd ffocws ar gynllunio ac ar hybu cyfleoedd i ddisgyblion wneud defnydd o fedrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Targedwyd unigolion a grwpiau drwy defnydd o raglenni ymyraeth. Yn ystod y flwyddyn trefnwyd wythnos rifedd a datrys problemau, a cafodd cytadleuaeth mathmagic hefyd ei chynnal wrth i'r ysgol ymateb tuag at godi proffil rhifedd ar drwas yr ysgol. Trefnwyd noson rifedd ble rhoddwyd gwahoddiad i rieni/gofalwyr i'r ysgol i dderbyn gwybodaeth ynglyn a sut oedd mathemateg a rhifedd yn cael ei gyflwyno ar draws yr ysgol drwy'r defnydd o adnoddau, strategaethau ac ymyraethau.

Dysgu ac addysgu – Wrth ymateb i ddatblygiadau Cenedlaethol cwricwlwm newydd 2022, rhoddwyd ffocws ar ddatblygu medrau gweithio yn annibynnol y disgyblion o fewn gweithgareddau rhifedd a llythrennedd. Rhoddwyd ffocws pellach ar fedrau annibynnol wrth gynllunio gweithgareddau dosbarth. Cafodd y defnydd o ardaloedd her eu datblygu ar draws yr ysgol. Roedd y gwaith oedd yn gysylltiedig a phrosiect ysgolion creadigol hefyd yn rhoddi ffocws ar ddisgyblion yn defnyddio medrau i weithio yn annibynnol. Cyflwynwyd strategaeth Meddylfryd Twf ar draws yr ysgol, wrth hybu ymagwedd o ddyfalbarhad yn ystod gweithgareddau a heriau.

TGCh – Roedd TGCh yn ffocws ar gyfer gwelliant, wrth ymateb i ofynion Cenedlaethol Fframwaith Gymhwysedd Ddigidol. Cafodd arweinyddion digidol gyfle i fynychu hyfforddiant, gan gynnig cefnogaeth i staff gyda'r defnydd o TGCh ar draws y cwricwlwm. Prynwyd adnoddau ychwanegol wrth i'r ysgol barhau i weithio ar wella'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth y dysgwyr. Cafodd clybiau technoleg gwybodaeth eu cynnal, gan gynnwys clybiau ffilm a codio.

Mae gwybodaeth bellach ar y blaenoriaethau uchod ar gael drwy gysylltu gyda'r Pennaeth.

Mae gwasanaeth gwella ysgolion '**Gwe**' yn weithredol ar draws chwe sir y Gogledd. Mae adroddiadau tymhorol Gwe yn cael eu rhannu gyda'r Bwrdd Llywodraethol, ac y maent y chwarae rhan allweddol ym mhrosesau gwelliant parhaus yr ysgol.

ASESIADAU ATHRO Blwyddyn 2

% o ddisgyblion yn cyrraedd Deilliant 5

(y deilliant disgwyliedig erbyn diwedd blwyddyn 2)

	Cymraeg	Mathemateg	Personol a Chymdeithasol
Ysgol	92%	92%	92%
Awdurdod Lleol	89%	91%	95%
Cymru	91%	90%	95%



% o ddisgyblion yn cyrraedd Deilliant 6 (Deilliant uwch na'r disgwyl erbyn diwedd blwyddyn 2)

	Cymraeg	Mathemateg	Personol a Chymdeithasol
Ysgol	49%	54%	62%
Cymru	38%	39%	61%

ASESIAD ATHRO Blwyddyn 6

% o ddisgyblion yn cyrraedd Lefel 4 (Lefel disgwyliedig erbyn diwedd blwyddyn 6)

	Cymraeg	Saesneg	Mathemateg	Gwyddoniaeth
Ysgol	97%	100%	100%	100%
Awdurdod Lleol	90%	92%	92%	93%
Cymru	92%	91%	92%	92%

% o blant yn cyrraedd Lefel 5 (Deilliant uwch na'r disgwyl erbyn diwedd blwyddyn 6)

	Cymraeg	Saesneg	Mathemateg	Gwyddoniaeth
Ysgol	46%	49%	44%	46%
Cymru	40%	43%	45%	46%

YR YSGOL A'R GYMUNED

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda amryw o asiantaethau lleol. Mae rhain yn cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iaith a Lleferydd, Nyrs ysgol a Gwasanaeth Ffisiotherapi. Mae gan yr ysgol berthynas agos gyda'r Gwasanaeth Heddlu. Mae Swyddog Addysg yr Heddlu PC Mark Jones yn ymweld a'r ysgol yn rheolaidd, gan weithio gyda dosbarthiadau penodol yn trafod themau sydd yn ymwneud a lechyd a Diogelwch. Mae Swyddogion Cymunedol yr Heddlu hefyd yn ymweld a'r ysgol yn ystod gweithgareddau sydd wedi ei trefnu, gan gynnig cefnogaeth gyda materion lleol.

Mae'r ysgol wedi gwneud defnydd o leoliadau lleol ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau megis Theatr y Stiwt, Parc y Ponciau, Amgueddfa Wrecsam, Llyfrgell Rhos, Canolfan Plas Madoc a Chapel Bethel.

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth yr ysgol gynnal amryw o weithgareddau gan godi arian tuag at yr achosion canlynol:

Plant Mewn Angen, Apel Macmillan, Comic Relief, Cerdyn Coch i Hiliaeth, Masnach Deg, Ymgyrch codi ymwybyddiaeth Awtistiaeth, Ymgyrch Bocsys Esgidiau

Ysgol Gymraeg yw Ysgol I D Hooson. Cymraeg yw iaith gyntaf yr ysgol. Mae grwp o ddisgyblion yn cynrychioli'r ysgol ar Gyngor Siarter Iaith. Yn ystod y flwyddyn gweithiodd y disgyblion hyn ar hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ar draws yr ysgol. Cafodd eisteddfod yr ysgol ei chynnal gyda pob disgybl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn cystadlaethau canu, llefaru a chelf. Bu llwyddiant i'r ysgol unwaith eto yng nghystadlaethau'r Urdd, gyda amryw o'r disgyblion yn cael llwyddiant ar lefel Sirol a Chenedlaethol. Bu llwyddiant mewn cystadlaethau celf a chrefft, wrth gystadlu yn unigol ac fel grwpiau. Aeth y grwp dawnsio creadigol ymlaen i gystadlu yn yr



Eisteddfod Genedlaethol yn Llanfari ym Muallt. Bu'r ysgol hefyd yn cystadlu gyda'r gystadleaeth cân actol, a bu dathlu mawr wrth i'r grwp cerddoriaeth greadigol ddod yn fuddugol am yr ail flwyddyn yn olynol.

Fe wnaeth grwp o ddisgyblion blwyddyn 5&6 fynychu gweithdy llythrennedd gyda bardd plant Cymru Miss Casia Williams. Yn dilyn cais llwyddiannus am grant ar gyfer prosiect creadigol drwy Gyngor y Celfyddydau, bu disgyblion blynyddoedd 3,4,a 5 yn gyfrifol am greu ffilm ar yr ardal leol. Cyflwynwyd y ffilm mewn noson o ddathlu yn Theatr y Stiwt. Bu timau pêl-droed, pêl-rwyd a rygbi yn cystadlu mewn cystadlaethau ac mewn gemau cyfeillgar yn erbyn ysgolion lleol. Teithiodd tim gymnasteg yr ysgol i Aberystwyth i gystadlu yn rownd derfynol cystadleuaeth yr Urdd.

Aeth disgyblion blwyddyn 6 ar ymweliad i Ysgol Morgan Llwyd fel rhan o raglen trosglwyddo. Aeth 74% o ddisgyblion blwyddyn 6 ymlaen i Ysgol Morgan Llwyd.

Mae Clwb Brechwast ar gael i ddisgyblion oed meithrin hyd at flwyddyn 6. Mae dros 50 o blant yn mynychu'r clwb yn rheolaidd.

Mae Cylch Meithrin Maes y Gornel, a leolir yn y prif adeilad yn cynnig sesiynau bore a p'nawn i ddisgyblion cyn oed meithrin. Mae'r Cylch Meithrin Mwy Hooson a leolir yn y caban ar fuarth yr ysgol, hefyd yn cynnig gofal ar gyfer sesiwn y bore a'r prynhawn.

Bu'r Gymdeithas Rieni ac Athrawon yn brysur yn trefnu nifer o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, a rydym yn ddiolchgar iawn i'r rhieni sydd yn cyfrannu tuag at weithgareddau. Mae'r GRhA wedi codi arian tuag at adnoddau dosbarth, a oedd yn cynnwys offer TGCh yn ogystal ag adnoddau dosbarth eraill. Hefyd trefnwyd ffair Nadolig, Ffair Haf, bingo a discos ganddynt. Yn ystod y flwyddyn bu grwp o rieni yn gweithio ar ddatblygu'r ardal tu allan ar dir yr ysgol, gan wneud gwelliannau i ardal ysgol y goedwig. Rydym yn ddiolchgar iddynt am eu cefnogaeth diflino.

Cynigwyd amrywiaeth o weithgareddau all-gyrsiol i'r disgyblion. Roedd rhain yn cynnwys gweithgareddau chwaraeon megis pêl-droed, dawnsio, canu, gwaith cartref, rygbi, gymnasteg, tenis, pêl-rwyd a chriced. Bu timau'r ysgol hefyd yn cystadlu yn erbyn ysgolion lleol ac mewn cystadlaethau Pêl-droed, Pêl-rwyd, athletau, gymnasteg a Rygbi. Cynigwyd amrywiaeth o wersi offerynnol, gan gynnwys gwersi llinynol, pres, chwythbrenau a drymio.

Yn ystod y flwyddyn cafwyd ymweliadau gan amryw o bobl a sefydliadau. Roedd rhain yn cynnwys :

Ffair lyfrau Scholastic

NSPCC

Gweithdy dawnsio New Dance blwyddyn 1

Cwmni Theatr Mewn Cymeriad – Cyflwyniad ar hanes Hedd Wyn

Tim glanweithdra dannedd yr ALI

Sioe bypedau Mark Griffiths – ffocws ar faterion Personol & Chymdeithasol

Teams4U – apel bocsys esgidiau

Athrawon peripatetic amrywiol gwasanaeth Cerdd

PC Mark Jones

Calon FM

Cwrs beicio a Diogelwch y ffordd i Bl.6



RHAI YMWELIADAU

Yn ystod y flwyddyn cafodd y disgyblion brofiadau gwerthfawr drwy ymweliadau amrywiol. Aethpwyd a disgyblion blwyddyn 4 ar gwrs preswyl i Wersyll yr Urdd Glan Llyn. Aeth disgyblion blwyddyn 5 i Wersyll yr Urdd Llangrannog, gyda disgyblion blwyddyn 6 yn mwynhau taith i Gaerdydd. Ymysg lleoliadau eraill y bu'r disgyblion yn ymweld a hwy roedd

Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, Fferm Park Hall Croesoswallt, Llandudno, Gymnasteg yr Urdd yn Aberystwyth, Parc Safari Knowsley.

PRESENOLDEB

Gweithiodd yr ysgol yn galed i wella presenoldeb y disgyblion. Targed presenoldeb yr ysgol ar gyfer 2017/18 oedd 96%. Mae presenoldeb yn parhau fel blaenoriaeth barhaus i'r ysgol. Rydym yn gofyn i rieni i ystyried yn ofalus cyn cymryd plant ar wyliau yn ystod y tymor ysgol. Hoffem eich atgoffa y dylai'r disgyblion gyrraedd yr ysgol ar amser, fel y gellir eu harwain i'r dosbarthiadau ar gyfer cofrestru am 8.55. Bydd hyn yn sicrhau na fydd angen marcio'r plentyn yn hwyr ar y cofrestr.

Presenoldeb :	94.6%
Absenoldeb awdurdodedig:	4.5%
Absenoldeb di-awdurdodedig:	0.9%

Canranau presenoldeb ar gyfer dosbarthiadau statudol

Derbyn Miss L Lewis	93.4%
Derbyn Miss B Thompson	93.9%
Bl. 1 & 2 Miss D Dempsey	95.4%
Bl. 1 & 2 Miss Ch Williams	96.5%
Bl. 1 & 2 Miss M Davies	94.7%
Bl. 3 & 4 Mrs M Jones/Mr A Roberts	95.7%
Bl. 3 & 4 Miss B Morris	94.2%
Bl. 3 & 4 Mr D Jones	94.7%
Bl. 5 & 6 Miss E Evans	94.4%
Bl. 5 & 6 Mrs M Williams	93.9%
Bl. 5 & 6 Mr S Owen	93.4%



POLISIAU

Bydd polisiau yn cael ei hadolygu a'i diweddarau yn rheolaidd yn unol a amserlen yr ysgol. Maent ar gael i unrhyw un sydd y dymuno ei gweld. Mae rhai polisiau ar wefan yr ysgol. Adolygwyd y polisiau canlynol yn ystod y flwyddyn:

- Derbyniadau
- Iaith
- Amddiffyn Plant
- Ymweliadau Llywodraethwyr
- Camddefnyddio Sylweddau
- Trefniadau Cwyno
- Cwynion(staff)
- Hysbysiad Preifatrwydd
- Hunan Arfarnu
- Gofal Iechyd
- Gwrth fwlio/Ymddygiad(disgyblion)



- Marcio
- E.Ddiogelwch
- Tâl

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae gan yr ysgol bolisi anghenion dysgu ychwanegol. Yn ystod 2017-18, Mr S Owen oedd cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles yr ysgol, gyda chyfrifoldeb am gyd-gysylltu'r gefnogaeth ar gyfer disgyblion ar gofrestr ADY yr ysgol. Rhoddir cymorth a chefnogaeth i unigolion a grwpiau, yn ogystal a chefnogaeth o fewn dosbarthiadau. Dilynir polisi'r ysgol a'r côd ymarfer ADY. Mae'r gefnogaeth a roddir i unigolion yn cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd. Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda gwasanaethau cefnogi yr awdurdod.

Mrs S Thomas-Ellis yw'r aelod o'r Bwrdd Llywodraethol sydd a chyfrifoldeb am Anghenion Dysgu Ychwanegol.

CYDRADDOLDEB

Mae polisi cydraddoldeb ar gael yn yr ysgol. Ni gafwyd unrhyw achos yn ymwneud a hiliaeth yn ystod y flwyddyn.

DISGYBLION GYDA ANABLEDD

Mae'r Corff Llywodraethol yn derbyn eu dylestswyddau a chyfrifoldebau dros ddisgyblion sydd a anableddau, a chymerir y camau priodol i sicrhau na fyddant yn cael i'w gwahaniaethu mewn unrhyw ffordd oherwydd anabledd. Os yw unrhyw riant neu ofalwr yn teimlo fod angen darpariaeth arbennig o fewn yr ysgol, yna dylent drafod y mater gyda'r pennaeth yn yr achos gyntaf. Mae gan yr ysgol gynllun hygyrchedd.

BYW YN IACH

Mae'r ysgol yn rhan o Gynllun Ysgolion Iach yr Awdurdod Lleol. Cynigir ffrwyth a llaeth i ddisgyblion y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn, a ffrwyth a byrbryd iachus i ddisgyblion blynyddoedd 1 i 6. Anogir y disgyblion i fwyta'n iach ac yfed dŵr. Ni chaniateir i'r disgyblion ddod a siocled, fferins na diodydd pop ar gyfer byrbrydau bore neu b'nawn. Yn ystod y flwyddyn trefnwyd wythnos byw yn iach, ble y rhoddwyd pwyslais ar gadw'n iach a heini yn ystod gweithgareddau yr wythnos. Fel rhan o'r wythnos, cymerodd yr ysgol gyfan ran mewn taith gerdded noddedig i Fynydd Rhos. Aeth aelodau Cyngor yr ysgol i Ganolfan Catrin Finch i fynychu dathliad ymgyrch ysgolion iach Wrecsam.

TOILEDAU

Mae gan yr ysgol doiledau penodol i ferched a bechgyn o fewn yr adeilad ac o fewn y cabanau allanol. Mae gan pob toiled gyfleusterau ymolchi a pheiriannau sychu trydan. Bydd pob toiled y cael ei lanhau yn ddyddiol gan lanhawyr a gyflogir gan yr Awdurdod Lleol.

AMSEROEDD SESIYNAU

Meithrin bore	8.55a.m. – 11.30a.m.
Meithrin p'nawn	12.45a.m. – 3.15p.m.
Derbyn / Blwyddyn 1 / Blwyddyn 2	8.55a.m. – 11.45 a.m 1.00p.m. – 3.15 p.m
Blwyddyn 3 / 4 / 5 / 6	8.55a.m. – 12.15p.m. 1.00p.m. – 3.15p.m.

ASESIADAU ATHRO

Roedd asesiadau athro ar gyfer diwedd y Cyfnod Sylfaen a Cyfnod Allweddol 2 yn galonogol.(gweler atodiad 2)

LLAWLYFR YSGOL

Mae copi o lawlyfr yr ysgol ar gael ar wefan yr ysgol, ac mae copi caled ar gael o swyddfa'r ysgol.



DYDDIADAU TYMHORAU YSGOL 2018 / 2019

Tymor yr Hydref

Agor Dydd Llun, Medi 3ydd, 2018

Cau Dydd Gwener, Hydref 26ain, 2018

Agor Dydd Llun, Tachwedd 5ed, 2018

Cau Dydd Gwener, Rhagfyr 21ain, 2018

Tymor y Gwanwyn

Agor Dydd Llun, Ionawr 7fed, 2019

Cau Dydd Gwener, Chwefror 22ain, 2019

Agor Dydd Llun, Mawrth 4ydd, 2019

Cau Dydd Gwener, Ebrill 12fed, 2019

Tymor yr Hâf

Agor Dydd Llun, Ebrill 29ain, 2019

Gwyl Banc Mai Dydd Llun, Mai y 6fed, 2019

Cau Dydd Gwener, Mai 24ain, 2019

Agor Dydd Llun, Mehefin 3ydd, 2019

Cau Dydd Llun, Gorffennaf 22ain, 2019

Diwrnodau Hyfforddiant Staff, pan fydd yr ysgol ar gau

Dydd Llun, Medi 3ydd, 2018

Dydd Mawrth, Medi 4ydd, 2018

Dydd Llun, Ionawr 7fed, 2019

Dydd Llun, Ebrill 29ain, 2019

Dydd Llun, Gorffennaf 22ain, 2019

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data 2017 ar gyfer gwybodaeth gymharol yr ALI a Chymru


**Ysgol I.D.Hooson
Wrecsam**

Rhif yr ALI/Ysgol:665/2259


Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen 2018

Canran o fechgyn, merched a disgyblion yn cyrraedd y deiliant disgwyliedig, o leiaf (Deiliant 5+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2018	ALI 2017	Cymru 2017	Ysgol 2018	ALI 2017	Cymru 2017	Ysgol 2018	ALI 2017	Cymru 2017
PSD	87	93	92	96	98	97	92	95	95
LCW	87	83	88	96	94	94	92	89	91
LCE	0	87	85	0	93	92	0	90	88
MDT	87	89	88	96	93	92	92	91	90
DCS	87	85	84	96	92	91	92	88	87



Perfformiad yr ysgol dros amser (2014 - 2018)



Nodiadau:

1. - = Dim data hanesyddol ar gael
2. Meysydd Dysgu: PSD = Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol; LCW = Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn y Gymraeg); LCE = Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu (yn Saesneg); MDT = Datblygiad mathemategol; DCS = Dangosydd y Cyfnod Sylfaen. Er mwyn ennill y DCS, mair i ddisgybl gyrraedd y deiliant disgwyliedig (Deiliant 5+), o leiaf, yn PSD ac MDT i'w dau a naill ai LCW neu LCE.
3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwlc ar gyfer y flwyddyn honno.

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data 2017 ar gyfer gwybodaeth gymharol yr ALI a Chymru


**Ysgol I.D.Hooson
Wrecsam**

Rhif yr ALI/Ysgol:665/2259


**Gwybodaeth gymharol yr ysgol: Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2018
Cyfnod Allweddol 2**

Canran y bechgyn, merched a disgyblion sy'n cyflawni'r lefel disgwylidig o leiaf (Lefel 4+):

	Bechgyn			Merched			Disgyblion		
	Ysgol 2018	ALI 2017	Cymru 2017	Ysgol 2018	ALI 2017	Cymru 2017	Ysgol 2018	ALI 2017	Cymru 2017
Saesneg	100	89	89	100	95	94	100	92	91
Cymraeg	100	83	89	95	96	95	97	90	92
Mathemateg	100	91	90	100	94	93	100	92	92
Gwyddoniaeth	100	91	91	100	95	94	100	93	92
DPC	100	87	87	100	93	92	100	90	90



Perfformiad yr ysgol dros amser (2014 - 2018)



Nodiadau:

1. Mae'r figurau ar gyfer Cymraeg yn cyfeirio at gyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf yn unig
2. DPC = Dangosydd Pynciau Craidd. I sicrhau DPC, mae'n rhaid i ddisgybl gyflawni o leiaf lefel 4 disgwylidig mewn Mathemateg a Gwyddoniaeth a naill ai Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf
3. Os nad oedd unrhyw ddisgyblion yn gymwys i'w hasesu mewn pwnc ar gyfer blwyddyn benodol bydd y graff yn terfynu a dangos bwllch ar gyfer y flwyddyn honno.